

Annwyl.....

Fel aelod o Gyngor Mynyddda Prydain, ysgrifennaf atoch I fynegu fy nghefnogaeth am hawl i fynediad cyfreithlon i arfordir Cymru.

Fel corfforaeth cynrychiolaidd cenedlaethol am ddringwyr, cerddwyr bryniau a mynyddwyr gyda dros 65,000 aelod ar draws Cymru a Lloegr, credau'r BMC bod mynediad i'r ardaloedd arfordirol yn cynwys y blaen draethau yn hanfodol i ddringwyr adlonianol ynghyd a cherddwyr. Mae tystiolaeth i awgrymu bod y mwyafrif llethol o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r arfordir yn chwilio am brofiad cyflawn o'r arfordir.

Yn fy mhrofiad, mae cerddwyr a dringwyr yn mynnu mynediad i'r blaen dreathau ac i'r clogwyni arfordirol a gellir ei rheoli heb ddirywiad i ddiddordebau perchnogion y tîr neu'r cyfungyrff cadwraeth. Byddwn yn hoffi gweld mynediad i'r ardaloedd arfordirol yn cynwys y blaen draethau, ardal cyferbyn â'r blaen draethau, a phellter yn ôl oddi wrth wyneb y clogwyn neu'r tîr cyfagos. Mae mynediad i'r arfordir yn hanfodol ar gyfer dringo adlonianol ac mae'r creigiau arfordirol yn darparu tirlun unig ac hanfodol am ddatblygiad dringo ac archwilio.

Mae arfordir Cymru yn arbennig o ffafriol ar gyfer dringo; mae rhai mannau o ddiddordeb i bobl lleol yn unig, tra bod mannau eraill yn denu ymwelwyr o wledydd o amgylch y byd. Mae clogwyni dê Sir Benfro a chlogwyni Gogarth ar Sir Fôn er enghraifft, yn ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol.

Mae'r daith ymlaen drwy lwybr llinellol felly yn rhy gyfyngedig fel opsiwn mynediad (sydd ar hyn o bryd yn cael ei weithredu gan WAG) am nad yw e'n darparu ar gyfer hawl i fynediad i'r arfordir a'r clogwyni. Bydd dibyniad ar yr awdurdodau lleol am weithrediad hefyd yn achosi rhwydwaith clatiog o lwybrau a fydd yn anodd rheoli, gyda aelodau'r cyhoedd yn naturiol eisiau archwilio ymhellach. Bydd hwn yn arwain at ddrwgdeimlad rhwng y cyhoedd a pherchnogion y tir. Fe hoffwn weld Cymru yn mabwysiadu agwedd tebyg i'r hynny sy'n cael ei awgrymu ar gyfer Lloegr gan "Natural England", sef hawl mynediad ar hyd coridor o fynediad arfordirol yn cynwys hawl mynediad cyfreithlon i glogwyni arfordirol a'r blaen draeth.

Teimlaf byddai'r agwedd hon yn unig yn cael derbyniad gyda'r mwyafrif o'r bobl sy'n ymweld â'r ardaloedd arfordirol ar hyn o bryd, a gall hyd yn oed ddod a mwy o ymwelwyr i Gymru a helpu cefnogi'r diwydiant twristiaeth. Yn ddiweddar, ystyrir Cymru yn un o ardaloedd gorau'r byd ar gyfer beicio mynydd. Gyda hawliau mynediad gwell i'r arfordir, gall Cymru ddod yn un o'r ardaloedd gorau'r byd ar gyfer dringo ar glogwyni arfordirol. Gobeithiaf byddwch yn ystyried hwn dros y misoedd nesaf.

Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir